# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 1) 2024** | Autumn Term (Half Term 1) 2024



## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Am ddechrau gwych i'r flwyddyn academaidd newydd! Gallaf eich sicrhau bod ein plant wedi ymgartrefu'n dda iawn yn eu dosbarthiadau ac yn mwynhau popeth sydd gan y staff i'w gynnig yn fawr. Mae wedi bod yn bleser cerdded o gwmpas yr ysgol ac arsylwi dysgu ac addysgu mor wych.**

**Mae wedi bod yn wych gweld ein plant yn perfformio'n dda iawn mewn cystadlaethau chwaraeon unwaith eto y tymor hwn. Llongyfarchiadau enfawr i'n timau pêl-droed a rygbi am gynrychioli'r ysgol mor dda. Rwy'n falch o bob un ohonynt.**

**Am ddechrau i'r flwyddyn!**
**Mwynhewch hanner tymor!**

*What a fantastic start to the new academic year. I can assure you that our children have settled in very well to their new classes and are thoroughly enjoying everything the staff have to offer. It has been a pleasure walking around the school and observing such fantastic teaching and learning.*

*It's been great to see our children performing very well in sporting competitions once again this term. A huge congratulations to our football and rugby teams for representing the school so well. I am proud of each and every one of them.*

*What a great start to the year!*
*Please have a very happy half term!*

SIARTER IAITH
Y Wobr Aur!

# Newyddion
# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod




## Gweithgareddau'r Hydref / Autumn Activities

**Cafodd Dosbarth Dwynwen amser gwych yn archwilio gweithgareddau'r hydref fel rhan o'u dysgu awyr agored yr hanner tymor hwn. Cawsant hwyl yn cerfio pwmpenni ac yn edrych ar liwiau'r hydref yn ein hamgylchedd.**

Dosbarth Dwynwen had a superb time exploring autumn activities as part of their outdoor learning this half term. They had fun carving pumpkins and looking at the autumn colours in our environment.



## Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth / Show Racism the Red Card

**Fe wnaethom ni i gyd gymryd rhan mewn diwrnod o'r enw 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' er mwyn codi ymwybyddiaeth o hiliaeth, sydd yn anffodus yn dal i fodoli yn ein cymunedau. Yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, rydym yn falch o ddweud ein bod yn cymryd safiad cryf iawn yn erbyn hiliaeth. Dyma Ddosbarth Branwen wedi gwisgo mewn coch i ddangos eu cefnogaeth.**

We all took part in a day called 'Show Racism the Red Card' in order to raise awareness of racism, that unfortunately still exists in our communities. At Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, we are proud to say that we take a really strong stance against racism. Here are Dosbarth Branwen dressed in red to show their support.

## Piano Newydd! / A New Piano!

**Hoffem i gyd estyn ein diolch o galon i ferched Côr Merched Taf Elai am eu rhodd hynod garedig o'u hen biano. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio wrth i ni berfformio allan yn ein cymuned.**

We would all like to extend our most greatful thanks to the ladies of Taff Ely Ladies Choir for their extremely kind donation of their old choir piano. This will be put to use as we perform out in our community.



# Y Siarter Iaith

## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

| | |
|---|---|
| Targed 1<br>Target 1 | **Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol**<br>*Use more Welsh outside of school* |
| Targed 2<br>Target 2 | **Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg**<br>*Listen to more Welsh music* |
| Targed 3<br>Target 3 | **Gwylio mwy o raglenni Cymraeg**<br>*Watch more Welsh programmes* |
| Targed 4<br>Target 4 | **Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau**<br>*Speak more Welsh on the yard and in the corridors* |
| Targed 5<br>Target 5 | **Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>*Use more Welsh apps and technology* |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

| | | |
|---|---|---|
| Hello! | - | Shwmae! |
| Good morning | - | Bore da |
| Good afternoon | - | Prynhawn da |
| Good evening | - | Noswaith dda |
| Good night | - | Nos da |
| How are you? | - | Sut wyt ti? |
| May I have...? | - | Ga i...? |



## Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Y bardd o Montreal - Bryn Fôn a'r band
Fyny ac yn ôl - Gwilym
Heyla - Frizbee
Can yr ysgol - Dafydd Iwan

## Ap y Mis

Duolingo

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Hydref**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Hydref (October)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch 'Cacamwnci'**
Watch 'Cacamwnci'




**Gofynnwch "Sut wyt ti'n teimlo?"** Ask your friend 'Sut wyt ti'n teimlo?'




**Canwch gân "Ti a Fi" gan Bronwen Lewis**
Sing along to "Ti a Fi " by Bronwen Lewis





**Dawnsiwch i gân Seren a Sbarc**
Dance along to Seren a Sbarc's song




**Chwaraewch gêm "Creu gyda Cyw" ar Cyw**
Play the "Creu Gyda Cyw' game on Cyw




**Ewch am dro i ffeindio pethau brown** / *Go for a walk to find brown things*





**Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon**

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 4/11/24 | Imiwneiddiadau Ffliw / *Flu Immunisations* |
| 7/11/24 | Pêl-droed Chwaraeon Caerffili / *Sports Caerphilly Football* |
| 14/11/24 | Gŵyl Pêl-droed Merched / *Girls Football Festival* |
| 15/11/24 | Diwrnod Plant Mewn Angen / *Children in Need Day* |
| 19/11/24 | Pêl-rwyd Chwaraeon Caerffili / *Sports Caerphilly Netball* |
| 6/12/24 | Diwrnod Sanau Elusen Plant Canser / *Kids Cancer Charity Socks Day* |
| 10/12/24 | Cyngerdd Nadolig Babanod (10yb) / *Infants Christmas Concert (10am)* |
| 11/12/24 | Cyngerdd Nadolig Babanod (10yb) / *Infants Christmas Concert (10am)* |
| 13/12/24 | Cinio Nadolig Ysgol / *School Christmas Dinner* |
| 17/12/24 | Cyngerdd Nadolig yr Iau (3:30yp) / *Juniors' Christmas Concert (3:30pm)* |
| 20/12/24 | Brecwast Gyda Santa / *Breakfast With Santa* |

Cymdeithas Rhieni & Athrawon

Parent Teacher Association

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn sefydliad sydd â chenhadaeth i wneud yr ysgol yn lle gwell i blant ddysgu. Mae arian a godir fel arfer yn cael ei wario ar bethau i wella profiadau ysgol y disgyblion.

*A PTA is a Parent Teacher Association, an organisation with a mission to make the school a better place for children to learn. Money raised is usually spent on things to improve the pupils' school experiences.*

## Bwletin Hydref 2024 / Autumn 2024 Bulletin

### Noson Ffilm y Nadolig

Fe fydd y CRhA yn cynnal noson ffilm Nadolig ar ddydd Iau, 12fed o Ragfyr rhwng 3:30yp a 5:30yh. Bydd y plant sy'n mynychu yn aros ar ôl ysgol a bydd gofyn i chi eu casgu am 5:30yh. Fe fydd ychydig o fwyd, diod a losin yn cael ei ddarparu i'r plant yn ystod y ffilm.

**PRIS: £3** *(bydd cais am yr arian wedi hanner tymor)*

### Enwch y...

Fe fydd y CRhA yn rhedeg cystadleuaeth i enwi'r tîm pêl-droed (adran iau) neu enwi'r nôm (babanod). Bydd hwn yn dechrau ar ddydd Llun ac yn rhedeg tan fod yr holl sgwariau wedi'u gwerthu. Caiff yr enillwyr eu dewis mewn gwasanaeth ysgol. Bydd set garddio i enillydd y babanod, pêl-droed i enillydd blwyddyn 3/4 a cherdyn rhodd £10 i enillydd blwyddyn 5/6.

**PRIS: £2** *(arian i ddod mewn o ddydd Llun)*

Diolch yn fawr,

CRhA Eich Plant

Cymdeithas
Rhieni & Athrawon

Parent Teacher Association

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn sefydliad sydd â chenhadaeth i wneud yr ysgol yn lle gwell i blant ddysgu. Mae arian a godir fel arfer yn cael ei wario ar bethau i wella profiadau ysgol y disgyblion.

*A PTA is a Parent Teacher Association, an organisation with a mission to make the school a better place for children to learn. Money raised is usually spent on things to improve the pupils' school experiences.*

## Bwletin Hydref 2024 / Autumn 2024 Bulletin

### Noson Ffilm y Nadolig

The PTA will host a Christmas film night on Thursday, 12th December between 3:30pm and 5:30pm. The children attending will stay after school and you will be required to collect them at 5:30pm. Some food, drink and sweets will be provided to the children during the film.
**PRICE: £3** *(there will be a request for payment after half term)*

### Enwch y...

The PTA will run a competition to Name the Football Team (junior department) or name the gnome (infants). This will start on Monday and run until all the squares have been sold. The winners will be chosen in a school assembly. There will be a gardening set for the infants winner, a football for the year 3/4 winner and a £10 gift card for the year 5/6 winner.
**PRICE: £2** *(money to come in from Monday)*

Diolch yn fawr,

CRhA Eich Plant